Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Cei Newydd i Aberporth, Ceredigion

## Cerddwch o leoliad hanner ffordd swyddogol Llwybr Arfordir Cymru yng Nghei Newydd, sydd wedi'i farcio gan gerflun hardd.

*“Mae'r rhan rhwng Cwmtydu a Llangrannog yn ysblennydd lle mae'r llwybr yn glynu wrth y llethr arfordirol serth. Darganfyddwch ddigonedd o fywyd gwyllt, enghreifftiau eithafol o ffurfiannau creigiau wedi'u plygu, traethau diarffordd hyfryd a phentrefi arfordirol swynol.”*

**NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:
Cei Newydd i Aberporth.

### Pellter:
13 milltir/22km.

### Ar hyd y ffordd...
Gan ddechrau o dref harbwr Cei Newydd, edrychwch yn ôl dros draethau Traethgwyn a Chei Bach lle’r oedd llongau’n cael eu hadeiladu yn eu cannoedd ar un adeg.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cofleidio'r clogwyni wrth i chi deithio i'r de, gan fynd heibio i hen dŵr gwylwyr y glannau wrth Graig yr Adar (lle gwych i weld dolffiniaid ac adar y môr).

Byddwch yn teithio drwy Gwm Coubal a Chwm Soden yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, lle byddwch yn gweld rhai ffurfiannau creigiau plyg diddorol, cyn mynd heibio olion Oes yr Haearn caer Castell Bach ac yna'n disgyn i lawr i Gwmtydu. Yn swatio rhwng dau bentir, mae'n hawdd gweld pam roedd y cildraeth bach diarffordd hwn unwaith yn llecyn glanio poblogaidd ar gyfer smyglwyr lleol.

O Gwmtydu, mae'n debyg mai’r rhan i Langrannog yw'r un fwyaf trawiadol o'r daith gerdded. Mae'r llwybr yn glynu at y llethr arfordirol gyda golygfeydd tuag at fryngaer pentir Pendinas Lochtyn (islaw lle mae pentir dramatig yn mynd allan i'r môr) ac Ynys Aberteifi yn y pellter.

Wrth i chi nesáu at Langrannog, byddwch yn gweld cerflun o Sant Carannog yn edrych dros y traeth a Charreg Bica ar y lan. Yn ôl y chwedl, mae'r pentwr garw hwn o graig yn ddant i'r cawr Bica. Nesaf, mae'r llwybr yn parhau ar hyd yr arfordir i Dresaith, lle mae rhaeadr anarferol yn disgyn dros y clogwyni, cyn cyrraedd hafan Aberporth.

### Angen gwybod:
Ceir meysydd parcio, toiledau cyhoeddus a digon o leoedd i fwyta ac yfed yng Nghei Newydd ac yn Aberporth.

Mae gwasanaeth bws Traws Cymru T5 yn cysylltu dau ben y daith gerdded. Ewch i www.trawscymru.info/t5 <http://www.trawscymru.info/t5> am fanylion

### Cyn Gadael:
Lawrlwythwch yr ap o'r App Store a Google Play.

ANDROID APP ON Google play

Download on the App Store

